**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 20 Rhagfyr 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D W Helliwell | L R Jones |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sian Bingham | Rheolwr Strategol Atal ac Ymyrryd yn Gynnar |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Alison Williams | Rheolwr Adnoddau Teuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Jones, C Richards a/ac P B Smith
Swyddog: Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl

---

## 30 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 31 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

Materion yn Codi:

Eitem 28 - Cyflogadwyedd - Sesiwn weithdy i archwilio'r 'ffit' rhwng Rhaglen Waith Abertawe a'r Strategaeth Trechu Tlodi

Cadarnhaodd Pennaeth Tlodi a'i Atal a'r Is-gadeirydd fod y llythyr wedi'i anfon at Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, fodd bynnag nid oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw oherwydd ymrwymiad blaenorol. Byddai'r materion a godwyd yn y llythyr yn cael eu trafod yn y cyfarfod misol i gynllunio'r agenda a gynhelir cyn y pwyllgor nesaf. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

**32 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-2022. (Cyflwyniad)**

Darparodd Sian Bingham, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, ac Allison Williams, Rheolwr Adnoddau Teuluoedd, gyflwyniad ar Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) 2017-2022.

Roedd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal cyfan (230 o dudalennau), ei gynllun gweithredu a fersiwn gryno o'r ddogfen ar gael ar wefan y cyngor: www.abertawe.gov.uk/asesiaddigonolrwyddgofalplant.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiogelu, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol bosib, argaeledd gofal plant sy'n ddigonol er mwyn bodloni gofynion rhieni yn eu hardaloedd y mae angen gofal plant arnynt er mwyn iddynt weithio, parhau i weithio, neu i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant.

Dylai Cynlluniau Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gael eu hadolygu'n barhaus a dylid adrodd amdanynt drwy adroddiadau cynnydd blynyddol. Bob blwyddyn, dylai awdurdodau lleol anelu at wella'n barhaus wrth sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol.

Darparwyd gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- Y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd i lunio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant;
- Y sefydliadau a'r grwpiau a wahoddwyd i roi eu barn ar ddigonolrwydd gofal plant lleol;
- Y sefyllfa bresennol;
- Ystadegau cyflenwad gofal plant ffurfiol;
- Gwasgariad daearyddol gofal plant;
- Y 3 ward lle mae'r nifer o ysgolion cynradd uchaf;
- Darpariaeth Dechrau'n Deg;
- Yr hyn y mae canlyniadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi dweud wrthym;
    - Cyffredinol;
    - Rhieni/Plant;
    - Darparwyr;
- Crynodeb o'r bylchau allweddol:
    - Bylchau daearyddol a math o ofal;
    - Bylchau incwm;
    - Bylchau anghenion penodol;
    - Bylchau amser;
    - Bylchau oedran;
- Oes gofal plant digonol yn Abertawe?
  Cadarnhaodd y swyddogion, ar yr adeg pan gasglwyd y data, fod gan Gyngor Abertawe amrywiaeth eang a chynhwysfawr o ddarpariaeth gofal plant sy'n bodloni anghenion daearyddol, economaidd a chyflogaeth yr awdurdod lleol.

Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau, yr ymatebodd y swyddogion yn briodol iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol. Byddai'r swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 24 Ionawr 2018 i ddarparu gwybodaeth am y cynllun peilot a ariennir gan y llywodraeth i blant 3-4 oed.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 33 Cynllun Gwaith 2017-2018.

Cynghorodd y Cadeirydd y byddai'r Cynllun Gwaith yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf yn dilyn y cyfarfod i gynllunio'r ag Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, y Cyfarwyddwr, Pennaeth Tlodi a'i Atal a'r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

**Penderfynwyd** darparu'r Cynllun Gwaith wedi'i ddiweddaru yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 24 Ionawr 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.59 pm

**Cadeirydd**